# Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant
# Bil Datblygu Twristiaeth a
# Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

## Cyflwyniad

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) a’i Brotocolau Dewisol wrth iddynt arfer unrhyw rai o’u swyddogaethau. Wrth baratoi'r Bil a'i bolisi sy'n sail iddo, ystyriwyd yr effaith bosibl ar blant, neu grwpiau penodol o blant. Mae hyn wedi llywio'r dadansoddiad o'r ffordd y mae'r Bil yn effeithio ar erthyglau'r Confensiwn.

## Effaith pa benderfyniad rydych yn ei hasesu?

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar Hawliau Plant (CRIA) yn ystyried effaith y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil") ar blant a'u hawliau o dan CCUHP.

Bydd y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr fodloni amodau penodol cyn iddynt gael eu trwyddedu. Os nad yw amodau'r drwydded yn cael eu bodloni, gellir gwrthod eu cais, neu ddirymu eu trwydded. Mae manylion llawn y cynllun wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig.

## Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun arfaethedig rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ymgynghorol atodol ym mis Mai 2023. Ym mis Medi 2023, roedd defnyddwyr a thrigolion yn destun arolwg i ganfod eu barn ar gynllun trwyddedu statudol ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr.

O ystyried cwmpas a phwrpas y Bil, a'r cynllun y bydd yn ei greu, nid ydym wedi ymgysylltu’n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, oherwydd ni ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol arnynt.

Fodd bynnag, rydym wedi trafod iteriadau cynnar o'r polisi gyda'r Gangen Plant yn Llywodraeth Cymru, sy'n rheoli'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant (CRAG), ac wedi cytuno bod effaith y polisi ar blant yn fach iawn, ond yn gadarnhaol yn bennaf.

Byddwn, fodd bynnag, yn parhau i fonitro effaith y Bil ar ôl ei weithredu ac os nodir unrhyw effaith anfwriadol neu annisgwyl ar blant, byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn ôl yr angen drwy rwydweithiau sefydledig gydag elusen Plant yng Nghymru a Senedd Ieuenctid Cymru.

Rydym hefyd wedi ystyried y gwaith ymgysylltu uniongyrchol a wnaed gan y tîm sy'n gyfrifol am Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) etc.(Cymru) (Deddf VARL), sy'n sefydlu'r gofrestr o lety ymwelwyr, y bydd y cynllun trwyddedu o ganlyniad i'r Bil hwn yn adeiladu arni; a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r tîm ac Awdurdod Refeniw Cymru.

Mae casgliadau o waith sgrinio'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant a Llesiant (CRWIA), a gwblhawyd fel rhan o ddatblygiad deddfwriaeth cynllun trwyddedu llety gosod tymor byr Llywodraeth yr Alban, a ddaeth i rym yn 2022, hefyd wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad hwn.

Rydym wedi ystyried effaith y polisi sy'n sail i'r Bil mewn ffordd debyg i Lywodraeth yr Alban, gan ystyried yr effaith bosibl ar blant yn y gwahanol ffyrdd a ganlyn:

- fel Darparwyr Llety Ymwelwyr (VAPs) eu hunain;
- fel plant VAPs;
- fel gwesteion neu blant gwesteion sy'n aros mewn llety yng Nghymru; neu
- fel preswylwyr cymunedau lleol a/neu gymdogion llety ymwelwyr yng Nghymru.

Fel VAPs eu hunain

I wneud cais am drwydded o dan y cynllun, rhaid i Ddarparwr Llety Ymwelwyr fod wedi'i gofrestru fel y cyfryw yn gyntaf o dan Ddeddf VARL. Dim ond os yw'n *darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr yng Nghymru yng nghwrs masnach neu fusnes, y gall person fod yn VAP, ac yn feddiannydd ar y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr*. Mae "cynnig darparu" yn golygu hysbysebu'r llety, ac ystyr "darparu" yw ymrwymo i gontract i ganiatáu i bobl aros yn y llety, neu, gymryd archeb.

Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i berson fod yn 18 oed neu'n hŷn i fod yn berchen ar eiddo neu rentu eiddo yn gyfreithlon yn ei enw ei hun, neu i wneud cais am forgais. Mae'r un peth yn wir am etifeddiaeth, hynny yw pan fo plentyn neu berson ifanc yn etifeddu eiddo tirol, mae'n aros mewn ymddiriedolaeth ac yn cael ei reoli gan ymddiriedolwyr nes bod y plentyn yn cyrraedd o leiaf 18 oed. Fodd bynnag, mae plant a phobl ifanc yn gallu ymrwymo i gontractau mewn rhai amgylchiadau, ac mae plant 16 oed a hŷn yn gallu bod yn gyfarwyddwr cwmni. O ganlyniad, er ei bod yn dechnegol bosibl y gallai plentyn fod yn VAP at ddibenion y cynllun hwn, mae'n debygol y bydd hyn yn gyfyngedig iawn. Felly, ystyrir bod yr effaith ar blant yn yr amgylchiadau hyn yn fach iawn.

Fel plant VAPs

Gall trwyddedu llety hunanddarpar effeithio ar blant yn y ffyrdd a ganlyn:

- diogelwch y cartref y mae'r plentyn yn byw ynddo;
- yr effaith ariannol ar eu rhieni neu warcheidwaid; a
- phresenoldeb neu absenoldeb gwesteion yn eu cartref.

Ystyriwyd a fydd rhieni neu warcheidwaid plant sy'n gweithredu llety ymwelwyr ar hyn o bryd yn parhau i wneud hynny mewn ffordd debyg neu ffordd wedi'i haddasu ar ôl cyflwyno'r cynllun.

Mae amodau'r drwydded yn cynnwys gofynion gorfodol ar gyfer eiddo, gan gynnwys materion diogelwch sylfaenol. Bydd hyn yn golygu y bydd safonau'r eiddo yn cael eu cynnal neu eu gwella, ac yn ei dro mae hyn yn golygu y dylai fod yn addas i'r plentyn fyw ynddo, pan fo'r llety ymwelwyr hefyd yn gartref iddo.

O ran effaith ariannol, o dan y cynllun, bydd angen i VAP dalu costau'r ffioedd cysylltiedig, ynghyd ag unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â sicrhau bod eu llety ymwelwyr yn bodloni amodau'r drwydded, os nad yw eisoes yn bodloni'r safon ofynnol. O ystyried bod yr amodau trwyddedu yn ymwneud â materion sydd naill ai'n ofynnol yn gyfreithiol eisoes, neu sy'n cael eu hystyried yn arferion gorau i'r sector, dylai VAPs fod eisoes yn bodloni'r rhan fwyaf, os nad pob un, o'r amodau hynny.

Gall rhai VAPs, gan gynnwys y rhai sy'n rhieni neu'n warcheidwaid plant, ddibynnu ar yr incwm o redeg llety ymwelwyr i dalu biliau'r cartref a gall costau trwyddedu effeithio ar yr incwm hwnnw. Fodd bynnag, bydd lefelau'r ffioedd eu hunain yn cael eu cadw mor isel â phosibl, ac yn cael eu pennu gan yr awdurdod trwyddedu i adennill y costau yn llawn. Pan fydd costau mwy sylweddol yn cael eu codi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun trwyddedu, gall hyn effeithio ar incwm yr aelwyd yn y tymor byr, ond dylai'r gwelliannau i'r eiddo o ganlyniad fod o fudd i unrhyw blant sy'n byw ynddo.

Mae'n bosibl y bydd yn well gan rai darparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio adael y farchnad na chydymffurfio â'r gofynion statudol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth sylweddol bod y sector yn crebachu o ganlyniad i gyflwyno cynlluniau trwyddedu tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt. Nid yw cyflwyno proses o drwyddedu landlordiaid yn y sector rhentu preifat yng Nghymru - gan gynnwys gofynion ynghylch larymau mwg/carbon monocsid ac ardystio diogelwch trydanol - wedi arwain chwaith at unrhyw ostyngiad amlwg ym maint cyffredinol y sector hwnnw o ran nifer yr eiddo yn y degawd diwethaf.

Felly, nid ydym yn ystyried y bydd y cynllun trwyddedu yn cael effaith andwyol sylweddol ar incwm y mwyafrif helaeth o VAPs. O ganlyniad, nid ydym yn rhagweld effaith niweidiol ar lesiant plant yn eu gofal. Wrth ailgydbwyso cymhellion rheoleiddio, gall y cynllun trwyddedu ategu mesurau eraill Llywodraeth Cymru i wella'r cyflenwad tai, a fyddai yn ei dro o fudd i blant yng Nghymru.

Mae costau amcangyfrifedig y cynllun trwyddedu yn cael eu hystyried ymhellach yn yr RIA.

<u>Fel gwesteion neu blant gwesteion</u>

Bydd gwesteion sy'n aros mewn llety ymwelwyr gyda'u plant, neu bobl ifanc 16 neu 17 oed sy'n aros mewn llety yn annibynnol, yn gallu gwirio a yw'r llety wedi'i drwyddedu, a

bydd ganddynt fwy o sicrwydd bod y llety yn bodloni amodau'r drwydded ble bynnag y maent yn aros.

Gall cost y llety fod ychydig yn uwch os yw'r ffioedd neu'r costau sy'n gysylltiedig â'r drwydded yn cael eu trosglwyddo i westeion. Fodd bynnag, lle mae'r costau hynny'n cael eu gwasgaru ar draws archebion, dylai hyn fod yn ymylol.

Fel preswylwyr mewn cymunedau a/neu gymdogion llety ymwelwyr

Gall plant a phobl ifanc sy'n byw ger eiddo a ddefnyddir fel llety ymwelwyr elwa ar well prosesau cynnal a chadw a rheoleiddio'r eiddo hwnnw. Mae hyn yn arbennig o wir am eiddo yng ngham cyntaf y cynllun, a fydd yn cynnwys eiddo y gellir ei ddefnyddio fel cartref neu annedd fel arall.

**Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

Gan ystyried yr asesiad uchod, i grynhoi, nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol ar blant a phobl ifanc a ragwelir oherwydd y Bil hwn, gan nad yw'r polisi sy'n sail iddo wedi'i dargedu at blant na phobl ifanc.

O ran effeithiau anuniongyrchol, mae'r canlyniadau'n gymysg. Bydd costau ychwanegol amrywiol ar gyfer VAPs, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau penodol a allai leihau incwm aelwydydd ychydig mewn rhai achosion.

Fodd bynnag, gall plant a phobl ifanc elwa ar y gwelliannau a/neu'r gwaith cynnal a chadw'r eiddo sy'n ofynnol i gydymffurfio ag amodau'r drwydded, naill ai mewn llety ymwelwyr lle maent yn aros neu yn eu cartref eu hunain (lle mae'r cartref hwnnw wedi'i leoli yn agos at lety ymwelwyr, neu hefyd yn cael ei ddefnyddio fel llety ymwelwyr).

Yn gyffredinol, felly, mae cyflwyno'r cynllun trwyddedu, er ei fod yn anuniongyrchol ac yn ymylol yn y rhan fwyaf o achosion, yn debygol o gael effaith gadarnhaol barhaus ar blant a phobl ifanc.

**Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Gweler yr erthyglau i weld pa rai sy'n gymwys i'ch polisi eich hun.**

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 27**<br>Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio i ddarparu hyn. | **X** | | Gallai plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae eu rhieni neu warcheidwaid yn gweithredu busnes llety ymwelwyr elwa ar y cynllun trwyddedu statudol o ganlyniad i ofynion ac amodau'r drwydded a fydd yn helpu i sicrhau y dylai'r eiddo lle maent yn byw fod yn addas ac yn ddiogel. |
| **Erthygl 31**<br>Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. | | **X** | Mae perygl y gallai'r gost trwyddedu gael ei throsglwyddo i ddefnyddwyr a gallai gynyddu'r gost i aros mewn llety ymwelwyr yng Nghymru, a allai effeithio ar eu gallu i ymweld neu ymwneud â'r arlwy diwylliannol yng Nghymru. Fodd bynnag, wedi'i wasgaru ar draws sawl archeb, mae unrhyw gynnydd yn debygol o fod yn fach iawn. Yn yr un modd, gall fod effaith uniongyrchol i dymor byr ar incwm aelwydydd, a allai effeithio'n andwyol ar deuluoedd â phlant y mae eu rhieni neu warcheidwaid yn VAPs ac yn defnyddio eu cartref fel llety ymwelwyr. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig i nifer bach o achosion, ac mae'r gwelliannau i'r eiddo lle mae'r plentyn yn byw yn gwrthweithio hynny. |

**Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.**

Ni ystyrir y bydd y Bil yn effeithio'n benodol ar ddinasyddion yr UE, EEA na dinasyddion y Swistir (y mae eu hawliau'n cael eu diogelu gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion) o'i gymharu â phobl eraill sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys y rheini hyd at 18 oed.

**Cyngor a phenderfyniad gweinidogol**

Y cyngor i Weinidogion yw cyflwyno'r Bil yn hydref 2025, gyda chrynodeb o'r dadansoddiad a nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil. Mae dadansoddiad o'r effeithiau hyn wedi cael ei ddefnyddio, a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio, i lunio dyluniad y Bil a'r cynllun trwyddedu dilynol, gan gynnwys unrhyw eithriadau a lliniariadau gofynnol. Bydd hyn yn llywio unrhyw gyngor a chynigion gweinidogol yn y dyfodol i Weinidogion wneud penderfyniadau arnynt.

Mae'r CRIA hwn wedi'i gytuno gan y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Prosiectau EET, sy'n goruchwylio'r Bil. Mae Gweinidogion wedi cytuno ar ganfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

**Cyhoeddi'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant**

Bydd y CRIA yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2025 ar wefan Llywodraeth Cymru, yn dilyn cyflwyno'r Bil, ac ochr yn ochr â chyhoeddi'r Bil.

**Monitro ac Adolygu**

Bydd effaith y Bil hwn yn cael ei adolygu fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Bydd unrhyw effeithiau a nodwyd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant, pobl ifanc a'u hawliau, fodd bynnag, yn cael eu hystyried ymhellach a'u hailasesu ochr yn ochr ag unrhyw reoliadau neu newidiadau mewn polisi yn y dyfodol.